

Drafft Ymgynghori



Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.

Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach

CYNLLUN CORFFORAETHOL BRO MORGANNWG

Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach

Cynllun Corfforaethol, Cyngor Bro Morgannwg 2020-25

Cynnwys:

Cyflwyniad	2
Llunio'r Dyfodol drwy adeiladu ar ein Cyflawniadau	4
Cyngor Bro Morgannwg ac Ein Cyngor	10
Cyflawni Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair	18
Cyflawni Ein Hamcanion Lles	22
Cyflawni ein Hamcanion a Monitro Cynnydd	28
Atodiad 1 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	29
Atodiad 2 - Geirfa	32

Cyflwyniad

Gyda chryn falchder rwy'n cyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020-2025 - **'Gweithio gyda'n gilydd am Ddyfodol Disgleiriach'**.

Mae gan Gynghorau rôl hollbwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cyrraedd pob aelod o gymdeithas ac mae'r Cynllun hwn yn nodi agenda uchelgeisiol i Gyngor Bro Morgannwg dros y pum mlynedd nesaf. Wrth gyflwyno'r Cynllun hwn ac adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gennym eisoes rwy'n hyderus y gallwn wireddu gweledigaeth y Cyngor sef

'Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair'

Dim ond drwy gydweithio, gwranddo a pharchu ein gilydd y gallwn lwyddo i ateb yr amryw heriau sy'n wynebu ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus heddiw. Mae gan y Cynllun bwyslais arbennig o gryf ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r gwaith partneriaeth yn amrywiol, gan gynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, ein partneriaid ym maes iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn ogystal â chyrrff sector cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned a'n cymunedau.

Yn 2016, gwnaethom nodi pedwar amcan lles yr ydym am eu cyflawni. Rydym am sicrhau Bro sy'n:

- Gynhwysol a Diogel
- Yn Amgylcheddol Gyfrifol a Llewyrchus
- Llawn Uchelgais ac yn Ddiwylliannol Fywiog
- Iach ac Actif

Yn y Cynllun hwn cyflwynwn bedwar amcan lles newydd y credwn sy'n ategu ei gilydd ac ar y cyd byddwn yn cyflawni ein canlyniadau lles lleol a'r saith nod lles cenedlaethol. Mae'r Cynllun hwn yn nodi pam ein bod wedi dewis yr amcanion hyn a sut y byddwn yn eu cyflawni. Ein pedwar amcan lles newydd yw:

- Gweithio gydag a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae Bro Morgannwg yn ardal amrywiol sy'n cynnwys cymunedau gwahanol iawn sydd â dyheadau, anghenion a phryderon gwahano. Mae ein Cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithio i fodloni'r anghenion hynny, mynd i'r afael â phryderon a helpu pobl o bob oedran i gyflawni eu dyheadau. P'un ai a ydych chi'n byw neu'n gweithio yn ein trefnu neu mewn un neu fwy o'n cymunedau gwledig, byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud bywyd yn well ac i wneud ein rhan wrth fynd i'r afael â materion lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, o addysg i ddiogelu amgylcheddol, tai a materion tystysgrifau geni, i gynllunio a chynnal a chadw priffyrdd. Cydnabyddwn pa mor bwysig yw'r gwasanaethau hyn i bobl Bro Morgannwg ac y gallai fod angen i'r gwasanaethau hyn newid dros oes y Cynllun hwn. Wrth gynllunio at unrhyw newid, fodd bynnag, byddwn yn ymgysylltu â chi am pam fod angen i ni newid, sut y gallai newid edrych, yr opsiynau a'r cyfleoedd yn ogystal â'r rhesymau dros unrhyw benderfyniadau a wnawn.

Yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol rydym yn ymrwymedig i edrych tua'r hirdymor a byddwn yn gweithio'n galed i roi etifeddiaeth gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ataliol ac yn eich cynnwys chi yn yr hyn a wnawn, wrth wrando ar eich syniadau, eich barn a'ch pryderon. Byddwn yn dal i weithio mewn partneriaeth, gan gydnabod buddion hyn a phwysigrwydd cydlynu gwasanaethau o gyloch anghenion pobl.

Dros y pum mlynedd diwethaf, Cyngor Bro Morgannwg yw'r Awdurdod Lleol mwyaf effeithiol yng Nghymru. Mae hyn o ganlyniad i ni weithredu'n arloesol ac yn ddarbodus ac mae'n deillio o'r buddsoddiad a wnaed yn ein cymunedau, staff y Cyngor, aelodau etholedig a phartneriaethau.

Rydym yn agor i syniadau a ffyrdd newydd o weithio at adeg pan fydd y galw ar y Cyngor yn dal i gynyddu. I ddod â'r Cynllun hwn at ei gilydd, rydym wedi gwrandao ar farn trigolion, edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael i wneud pethau'n wahanol ac ystyried sut y gallwn weithio'n fwy rhanbarthol a gydag eraill. Rydym yn awdurdod uchelgeisiol a blaengar. Rwy'n hyderus os yw staff, aelodau etholedig, y gymuned a phawb gyda buddiant y Fro'n dal i gydweithio y gallwn sicrhau Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair.



Rob Thomas

Rheolwr Gyfarwyddwr

Llunio'r Dyfodol drwy adeiladu ar ein Cyflawniadau

Yn 2016 cytunodd y Cyngor ar bedwar canlyniad lles ac wyth amcan lles. Rhoddodd y rhain y fframwaith ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol 2016-20 ac ar gyfer sut y byddai'n Cyngor yn gwireddu ei weledigaeth ac yn cyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi dal i roi gwasanaethau o safon a gwella lles cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Bro Morgannwg. Rydym wedi cofleidio'n gadarnhaol ein dyletswyddau dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ymsefydlu'r pum ffordd o weithio ar draws y Cyngor.



Rydym wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn yr wyth amcan lles y cytunwyd arnynt yn 2016 ond wrth ddatblygu Cynllun 2020-2025 mae'n amlwg o siarad â'n partneriaid, aelodau etholedig a staff, fod angen amcanion newydd arnom bellach. Nodir ein hamcanion newydd yn nes ymlaen yn y Cynllun gan adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ers 2016 a'r heriau a wynebwn yn 2020 a thu hwnt

Bob blwyddyn mae'r Cyngor y cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi dadansoddiad manwl o'n perfformiad yn erbyn ein holl amcanion yn y flwyddyn flaenorol. Isod mae rhai enghreifftiau o'r gwahaniaeth cadarnhaol rydym wedi'u gwneud a pham y gallwn fod yn wirioneddol falch o'n gwasanaethau.

Yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol rydym yn fwy agored ac yn **cynnwys** trigolion, cwsmeriaid a phartneriaid yn y penderfyniadau a wnawn. Enghraifft ragorol o hyn yw sut y gwnaethom gysylltu â disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned ehangach ynghylch trawsnewid addysg ysgol uwchradd yn y Barri. Roedd angen i ni roi trefniadau ar waith at ddyfodol addysg uwchradd yn yr ardal ac oherwydd yr adborth a gawsom ar ein cynigion cychwynnol gwnaethom ddatblygu ffordd newydd ymlaen a ffurfiodd y sail i ymgynghori helaeth pellach a lywiodd y penderfyniadau gwybodus a wnaethom.

Rydym yn mabwysiadu dull llawer mwy **integredig** o weithio gan gydnabod bod angen i wasanaethau gydblythu a chyfrannu at ystod o amcanion. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o fod yn falch o'n rôl rianta gorfforaethol sy'n sicrhau bod yr holl wasanaethau'n deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldeb i wella lles a chyfleoedd plant sydd neu a arferai fod mewn gofal. Gwelir hyn yn ein 'Strategaeth i Blant sydd angen Gofal a Chymorth' a luniwyd gyda phartneriaid ac sy'n cynnwys fersiwn pobl ifanc o'r cynllun.

Un o'r heriau mwyaf yw llwyddo deall a chynllunio at yr **hirdymor**. Mae ein dull rheoli gwastraff yn adlewyrchu'r angen i feddwl yn yr hirdymor am effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd ac ar y gwasanaethau, seilwaith a'r newid ymddygiad sydd eu hangen i sicrhau

ein bod yn rheoli ein gwastraff y effeithiol ym Mro Morgannwg. Mae newidiadau'n cael ei gwneud i sut y caiff gwastraff ei gasglu ar gyfer ailgylchu yn dilyn ymgysylltu helaeth, a bydd ymgynghori'n galluogi'r Cyngor i gynyddu swm y gwastraff y gellir ei ailgylchu. Fel rhan o'r broses o roi'r newidiadau hyn ar waith rydym wedi cydnabod yr angen i weithio'n agos gyda thrigolion lleol.


Os ydym i fodlon anghenion amrywiol ein cymunedau lleol mae'n hanfodol ein bod yn deall yn well achosion craidd materion a sut i'w **hatal**. Mae diogelwch cael cartref sy'n ddiogel, fforddiadwy ac mewn cyflwr da yn ffactor pwysig wrth sicrhau ein lles corfforol a meddwl. Mae tai da'n bwysig ar gyfer ein hiechyd, yr amgylchedd ac ar gyfer cymunedau cynaliadwy. I fodloni'r angen am dai'n lleol mae'r Cyngor wedi clustnodi rhaglen adeiladau tai uchelgeisiol i godi tai hygyrch, fforddiadwy o safon.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd **cydweithio** a thrwy weithio mewn partneriaeth y gallwn gyflawni mwy a chynnig gwasanaethau gwell. Mae'r Cyngor yn dal i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd a'r Trydydd Sector i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi llwyddo yn ei gais i ariannu ystod o brojectau i wella gwasanaethau a bodloni anghenion ein trigolion mwyaf agored i niwed yn well Un project sy'n dangos buddion cydweithredu yw Uned y Bae yn Nhŷ Dyfan. Agorwyd yr uned yn 2016 ac mae'n galluogi pobl i gael eu rhyddhau'n gynt o'r ysbyty ond gan dal i gael gofal a chymorth cyn dychwelyd adref. Mae llwyddiant yr uned gyfystyr â £500,000 yn llai o wariant ar becynnau gofal cymunedol hirdymor o ganlyniad i bobl yn cael eu hail-alluogi'n llwyddiannus.

Mae ein dull o ddatblygu'r holl wasanaethau uchod a chyflwyno'r holl newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas at y dyfodol hefyd yn dangos sut rydym wedi cyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol.

Mae gwella ein hysgolion, codi tai fforddiadwy, rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, lleihau gwastraff a gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed ond yn rhan fach o beth mae'r Cyngor wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf i gyfrannu at y nodau lles cenedlaethol a'n canlyniadau lles lleol. Mae'r enghreifftiau uchod ynghyd â'r cyflawniadau a nodir ar dudalen 7 hefyd yn dangos sut rydym wedi cyflawni yn erbyn yr wyth nod lles yng Nghynllun Corfforaethol 2016-2020.

Pa mor dda mae'n ein Canlyniadau Lles yn cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol i Gymru



Ein Cyflawniadau Allweddol

Bro Gynhwysol a Diogel

Roedd 43% o dai newydd a godwyd y llynedd yn fforddiadwy, gan barhau â thuedd o helpu pobl ar yr ysgol dai a rhagori ar ein targed a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Rydym hefyd wedi dechrau codi tai cyngor newydd i'r bobl yn yr angen mwyaf, gyda 42 o unedau newydd ar gael erbyn 2020.

Rydym yn arwain yng Nghymru wrth ail-ddefnyddio tai gwag, gyda'n perfformiad y gorau'r wlad, wrth i ni weithio gydag eraill i wneud mwy o ddefnydd o lety ledled y Fro.

Dyfarnwyd dros £500,000 i 43 grŵp cymunedol ar draws 16 ward i brojectau sydd werth dros £1.4m i gwblhau cynlluniau cymunedol drwy'r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf.

Rhwng Mehefin 2018 a Mawrth 2019, cafodd y gwasanaeth Cydlynu Aseidiadau ac Atgyfeiriadau Cam-drin Domestig (DAARC) 1,658 o atgyfeiriadau gan yr heddlu. Mae'r tîm yn ymchwilio i ba un a yw'r dioddefwr wedi neu ei fod yn defnyddio gwasanaethau gwahanol ac yn rhoi ar waith becyn cymorth priodol i fodloni ei anghenion a lleihau nifer y digwyddiadau cam-drin domestig ailadroddus.

Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol

Mae denu pobl i ymweld â'r Fro'n werth £250m bob blwyddyn i economi dwristiaeth y fro. Rydym yn gyrchfan boblogaidd gyda 4.26m o ymwelwyr yn dod i'r Fro yn 2018, wedi'i ategu gan ein gwaith buddsoddi ac adfywio yn yr ardal. Mae nifer yr ymweliadau ag Ynys y Barri'n unig wedi cynyddu gan bron 10% ers 2015.

Ers Ebrill 2016 cwblhaodd y Cyngor 77 o gytundebau adran 106 gan sicrhau dros £21.4m i ddarparu a gwella cyfleusterau, eilwaith a gwasanaethau oddi ar y safle yn ardal y datblygiadau.

Mae ein ôl-troed carbon wedi lleihau gan 35% drwy drosi goleuadau stryd yn rhai LED a buddsoddi mewn mesurau arbed ynni yn ein swyddfeydd, sy'n ostyngiad o 4,278 tonnall mewn 3 blynedd.

Gan weithio gyda'n trigolion, rydym wedi cofleidio'r her i leihau ymhellach yr effaith ar yr amgylchedd gan wastraff, gyda 74% o'r holl wastraff a ailgylchir a heb gael ei anfon i safle tirlenwi eleni, o'i gymharu â 65% yn 2015/16.

Bro Uchelgeisiol â Diwylliannol Fywiog

Dros 5 mlynedd diwethaf dan Fand B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, creodd y Cyngor 630 o leoedd ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol. Sefydlwyd dwy ysgol gynradd Gymraeg â 210 o leoedd gyda buddsoddiad o £5.81 miliwn a chrëwyd 210 o leoedd pellach drwy ehangu ysgol gynradd Gymraeg arall.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym wedi sicrhau bod yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal wedi gadael addysg ofynnol gyda chymhwyster cymeradwy, gan eu rhoi ar ben ffordd i gyflawni pethau mawr.

Mae disgyblion ysgol y Fro wedi'n gyson gyflawni uwch na chanlyniadau cyfartalog TGAU a Safon Uwch, a gwelwyd lleihad flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran NEET, mae presenoldeb wedi gwella ac mae llai o ysgolion nag erioed yn rhan o weithdrefnau dilynol Estyn.

Mae'r Gymraeg yn ffynnu yn y Fro, gyda'r gwasanaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio gyda phartneriaid i roi cyfleoedd newydd i ddysgu.

Mewn 4 blynedd, trawsnewidiwyd llyfrgelloedd yn hybiau lleol gan grwpiau cymunedol, gan gynyddu nifer y cyfleusterau sydd ar gael, ymateb i ofynion defnyddwyr a sicrhau £1m mewn arian newydd. Ar y cyfan roedd bron 1.4 miliwn o ymweliadau â'n llyfrgelloedd yn 2018/19.

Bro Iach ac Actif

Rydym yn cydnabod rôl yr amgylchedd wrth gyfrannu at les da ac mae nifer uwch nag erioed o barciau Baner werdd, gyda ffocws cryf ar bwysigrwydd chwarae a gweithgareddau awyr agored.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda mwy na 320 o bartneriaid i gyflawni Cynllun Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Fro. Mae o hyd lefelau uchel o gyfranogiad mewn chwaraeon ac mae hyn yn cynnwys dros 270 o gyfranogwyr newydd drwy ein project lles meddwl a thros 1,500 o gyfranogwyr drwy ein project Merched Mewn Chwaraeon. Mae'r ddau broject hyn wedi llwyddo cyrraedd pobl na fyddent fel arall o reidrwydd yn gwneud chwaraeon.

Mae'r Cyngor yn dal i flaenoriaethu sefydlogrwydd i'w blant sy'n derbyn gofal. Ar 31 Mawrth 2019, dim ond 5.6% o blant symudodd leoliad deirgwaith neu fwy. Mae hyn yn adlewyrchu perfformiad sefydlog yn y maes hwn dros y pedair blynedd diwethaf gyda dim ond 5.6% i 11% o blant yn symud lleoliad deirgwaith neu fwy.

Rydym yn falch o'n cartrefi gofal preswyl wrth fod yn fannau diogel i'r sawl sy'n byw gyda demensia a thrwy arian grant Llywodraeth Cymru buddsoddiwyd dros £400,000 mewn gwella addurniad, cynllun a chyfleusterau i gefnogi hyn.

Mae ein gwasanaeth cydlynol â Phen-y-bont yn rhoi seibiant i oedolion a'u teuluoedd drwy Leoliadau i Oedolion ac mae mwy o bobl nag erioed yn manteisio ar y gwasanaeth.

Gan weithio gyda phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd, rydym wedi rhoi mwy o gyfleoedd i bobl reoli sut maen nhw'n treulio amser yn y gymuned, manteisio ar gyfleusterau lleol a gwella'u hyder drwy weithio gyda'n gweithwyr cymorth.

Yn y diweddaraaf o blith y dulliau arloesol a welwyd, mae'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth dydd New Horizons i bobl ag anabledd corfforol wedi sefydlu partneriaeth â busnes cenedlaethol i ddatblygu fideo hyfforddi i staff y ganolfan gyswllt i'w galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â phawb.

Cyngor Bro Morgannwg ac Ein Cyngor

Mae'r byd yn prysur newid ac mae'r cyd-destun i'r cynllun hwn yn sylweddol wahanol i le'r oeddem ni yn 2016. Yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol mae'r ffactorau sy'n effeithio ar sut a beth rydym yn ei wneud a disgwyliadau'r bobl o'n cwmpas y n newid. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn buom yn ystyrlon o dueddiadau yn y dyfodol o ran yr economi, demograffeg, technoleg a newid yn yr hinsawdd.

Yr hyn sy'n gyson yw'r angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio at y dyfodol, i weithio gyda'n partneriaid a chroesawu newid. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ystyried sut y bydd yr hyn a wnawn a'n penderfyniadau'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Mae gan y Fro amgylchedd amrywiol sy'n cynnig nifer o heriau. Mae gennym gyfrifoldeb i gadw a gofalu am ein hamgylchedd naturiol, ein diwylliant a'n treftadaeth wych.

Mae cyfleoedd a phrofiadau'n amrywio ar draws yr ardal gyda phobl yn byw mewn rhai ardaloedd dan anfantais yn ddifreintiedig. Yn ogystal â hyn mae ein poblogaeth yn heneiddio ac mae angen i ni sicrhau y gall gwasanaethau fodloni anghenion newidiol y boblogaeth wrth iddi heneiddio. Mae angen i ni feddwl yn glir am ba wasanaethau a roddwn a sut rydym yn eu rhoi i bobl. Rhaid i ni ystyried anghenion amrywiol y boblogaeth p'un ai oherwydd oedran, ethnigrwydd, iechyd, amgylchiadau ariannol neu un neu fwy o resymau eraill a all effeithio ar ba wasanaethau a chymorth sydd eu hangen ar bobl.

Mae ystyried y cyfrifoldebau a'r adnoddau sydd gan y Cyngor wedi bod yn hollbwysig wrth greu'r Cynllun hwn.


Mae'r wybodaeth ganlynol am yr ardal leol, y boblogaeth leol a'r Cyngor yn rhoi rhywfaint o'r cyd-destun o ran beth sydd angen i ni ei gyflwyno a'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni ei blaenoriaethau. Daw'r data hwn o ystod o ffynonellau allanol gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Data Cymru a StatsCymru.

Poblogaeth a Chartrefi

Mae'r ffigurau isod yn rhoi trosolwg a sut mae'r boblogaeth leol yn newid.

- Mae poblogaeth Bro Morgannwg yn dal i dyfu, ac amcangyfrifir bod 132,165 o bobl yn byw yma.
- Amcangyfrifir bod tua 56,435 o gartrefi ym Mro Morgannwg.
- Erbyn 2039 amcangyfrifir y bydd 17% o boblogaeth heddiw rhwng 0-15 oed, gostyngiad o 3% o boblogaeth heddiw.
- Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth, amcangyfrifir erbyn 2039 y bydd 11% o boblogaeth y Fro'n 80 oed a'n hŷn, cynnydd o 6% oddi ar boblogaeth heddiw.

Ffigur 1: Amcangyfrifon Poblogaeth Bro Morgannwg i'r sawl 80 oed a hŷn:




Lles Cymdeithasol

Dengys i ffigurau isod ystod y materion a alla effeithio ar les cymdeithasol unigolion a chymunedau sy'n berthnasol ni fer o wasanaethau'r Cyngor.

- Yn y Fro mae gan 16% o ddisgyblion oedran ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Y grŵp mwyaf o ADY yw plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu.
- Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth amcangyfrifir erbyn 2035 y bydd 1,097 o bobl 18+ oed yn cael gwasanaethau preswyl gan yr Awdurdod Lleol.
- Amcangyfrifir erbyn 2035, y bydd gan 3,311 o boblogaeth y Fro sydd dros 65 oed ddemensia.
- Mae 76% yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn lleol, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73%.
- Amcangyfrifir bod 13% o bobl yn byw mewn amddifadedd incwm, sy'n is na chyfartaledd Cymru.
- Gellir gweld gwahaniaethau gwirioneddol rhwng ardaloedd, amcangyfrifir mewn rhai ardaloedd mwy difreintiedig bod 38% o bobl mewn amddifadedd incwm.
- Yn rhai o'r ardaloedd mwy difreintiedig amcangyfrifir bod 53% o blant yn byw mewn tldi.

Ffigur 2: Amddifadedd incwm ym Mro Morgannwg

Parth Amddifadedd Incwm MALIC, Bro Morgannwg:




Lles Economaidd

Mae tai a chyflogaeth yn ffactorau mawr o ran lles economaidd.

- Cafodd 1,150 o dai ganiatâd cynllunio yn 2018/19.
- Roedd 43% o'r holl gartrefi newydd yn 2018/19 yn dai fforddiadwy.
- Yn 2018, gweithiodd 700 yn fwy o drigolion yn y Fro nag a deithiodd allan o'r Fro i'r gwaith. Mae 31,900 o drigolion y Fro'n gweithio yn y Fro, 31,200 yn teithio i'w gwaith y tu allan i'r Fro, gyda 22,200 o drigolion yn gweithio yng Nghaerdydd.
- Mae 9,000 o bobl yn teithio i'r gwaith i'r Fro o'r tu allan; daw 1,400 o'r rhain o Ben-y-bont.
- Mae 52.1% o drigolion y Fro sy'n gyflogedig yn gweithio mewn swyddi grŵp mawr 1-3. Mae hyn yn cynnwys Rheolwyr, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion, Swyddi Proffesiynol a Swyddi Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiedig.
- Mae 80.4% o'r boblogaeth oedran gwaith mewn gwaith, gyda 3.4% yn ddi-waith.
- Mae canran y bobl a gyflogir yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 73.1%.

Ffigur 3: Cyfradd Newid mewn Cyflogaeth Bro Morgannwg:




Lles Diwylliannol

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi cipolwg ar les diwylliannol yn y Fro.

- Yn Arolwg Barn Gyhoeddus 2018 dywedodd dros 98% o drigolion eu bod yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y Fro fel lle i fyw.
- Amcangyfrifir bod 3% o boblogaeth y Fro o gefndir ethnig nad yw'n wyn.
- Amcangyfrifir bod 21% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Ffigur 3: Canran y siaradwyr Cymraeg dros 3 oed ym Mro Morgannwg




Lles Amgylcheddol

Yr amgylchedd yw un o'n hasedau gorau ac mae'r wybodaeth isod yn dangos pa mor bwysig yw hi i'r Cyngor ystyried ei effaith ar yr amgylchedd.

- Mae 27 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ym Mro Morgannwg.
- Mae 10 parc baner werdd.
- Mae 53km o arfordir gan gynnwys 23km o Arfordir Treftadaeth Morgannwg.
- Mae gan y Fro lefelau uwch o allyriadau CO2 y pen na chyfartaledd Cymru.
- Mae lefelau llygredd aer yn gostwng yn araf.

Ffigur 4: Newid llygryddion Nitrogen Deuocsid Bro Morgannwg dros amser:




Ein Cyngor

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi ffeithiau allweddol am y Cyngor a'i adnoddau.


- I gefnogi'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig mae'r Cyngor yn dibynnu ar weithlu medrus sy'n cynnwys athrawon, peirianwyr a gweithwyr cymdeithasol.
- Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 5,000 o staff, gan gynnwys y rhai a gyflogir mewn ysgolion.
- Yn Arolwg Staff 2018, dywedodd 74% o ymatebwyr eu bod yn falch i weithio i'r Cyngor, a dywedodd 70% y byddent yn argymhell y Cyngor fel lle i weithio.
- Mae 57 ysgol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys 7 ysgol Gymraeg.
- Mae gan y Cyngor 3,829 o gartrefi.
- Mae 47 o gynghorwyr etholedig gan gynnwys y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor a chwe chynghorydd arall.

Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol ynghyd â Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) y Cyngor. Mae'r CATC yn nodi rhagfynegiadau ar faint o arian a allai fod ar gael i'r Cyngor ac anghenion y gwasanaethau i'w hariannu. Ers 2010/11 mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni £55m o arbedion refeniw, rheoli galw cynyddol am ein gwasanaethau ac aros yn awdurdod lleol mwyaf effeithiol Cymru dros y pum mlynedd diwethaf, gyda lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid. Mae hyn ar adeg lle mae'r arian gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi lleihau.

Cyfanswm cyllideb refeniw'r Cyngor yn 2019/20 yw £226.077 miliwn. Ariennir hyn gan Lywodraeth Cymru, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes:



Yn 2019/20 rhennid ein cyllideb ar draws y meysydd canlynol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen:



Ers 2010/11 mae'r ffordd y mae ein cyllideb wedi cael ei dyrannu wedi newid wrth i benderfyniadau anodd cael eu gwneud ar y gwasanaethau y mae angen i'r Cyngor eu blaenoriaethu. Mae gwariant y Cyngor ar y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu gan 40%, addysg gan 12% a gwelwyd lleihad o 43% ar weinyddu mewnol.




Mae'n amlwg y bydd y sector cyhoeddus yn mynd drwy gyfnod o newid enfawr dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y ffordd rydym yn gweithio, yr hyn a ddisgwylir gennym a hynny o adnoddau sydd ar gael i ni oll yn newid yn fawr. Ein dyletswydd yw sicrhau ein bod yn dal i roi gwasanaethau i'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, y caiff pobl ifanc y dechrau gorau mewn bywyd a bod y Fro'n lle diogel, glân ac yn ardal y mae pobl dal am fyw, gweithio ac ymweld â hi. Mae'r amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun hwn yn rhoi fframwaith i'n gweithgareddau dros y pum mlynedd nesaf, gan weithio gydag a thros ein cymunedau lleol i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau amrywiol.

Cyflawni Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair

Mae'r Cynllun newydd hwn yn dangos sut y byddwn yn gweithio i wireddu ein gweledigaeth o gymunedau cryfion gyda dyfodol disglair, gan fodlon ein canlyniadau lles a chyflawni pedwar amcan lles newydd dros y pum mlynedd nesaf.

Ein Gwerthoedd

Roedd modd cyflawni'r Cynllun blaenorol oherwydd ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff. Pan wnaethom lansio ein Cynllun Corfforaethol yn 2016, gwnaethom ddechrau ar raglen uchelgeisiol o ymwneud â staff ynghylch ein pedwar gwerth newydd. Mae'r rhain yn disgrifio ein hymddygiad proffesiynol, a sut mae wedi'i adlewyrchu yn y ffordd rydym yn cyflawni ein gwasanaethau. Maen nhw'n ffurfio rhan o'r Siarter Staff a gyflwynwyd ar yr un adeg â'n Cynllun Corfforaethol ac sy'n nodi'r disgwyliadau sydd gan y Cyngor o'i gyflogeion, a beth y gall staff ei ddisgwyl gan y Cyngor.



Mae ein gwerthoedd yn sefydledig ymhob rhan o'r sefydliad a buont yn allweddol wrth sicrhau bod y Cyngor wedi cyflawni'r ymrwymadau a oedd yn y Cynllun Corfforaethol blaenorol. Maen nhw hefyd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddiwylliant y sefydliad a sut rydym oll yn cydweithio. Drwy ein gwaith datblygu sefydliadol, rydym wedi gwella'r broses arfarnu, rhoi cyfleoedd dysgu newydd arloesol, ailfywiogi ein prosesau gwobrwyo a chydabod, ac ailwampio cyfathrebu mewnol i sicrhau ein bod yn gweithio fel 'un Cyngor'. Mae lefelau uchel o ymgysylltu gan staff a boddhad mawr wedi'u cyflawni'n rheolaidd dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r gwaith a wnaethom.

Mae ein gwerthoedd yn enghraifft arall o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi galluogi newid eang yn y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio. Mae'r gwerthoedd yn ategu'r pum ffordd o weithio a gyflwynwyd gan y Ddeddf ac yn dangos ein bod yn gweithredu **'mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain, drwy ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy'**.

Byddwn yn dal i adeiladu ar y sylfeini cryf hyn i gyflawni ein Cynllun newydd yn llwyddiannus ar gyfer 2020-25.

Datblygu ein Cynllun


Wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn a'n blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf rydym wedi ystyried:

- beth mae ein trigolion wedi dweud wrthym
- ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ardal leol a'r gymuned leol
- ein dyletswyddau statudol
- yr adnoddau sydd ar gael i ni
- arfer gorau a'r hyn y gwyddom sy'n gweithio'n lleol
- barn ein partneriaid
- ymrwymadau a wnaethom i gyflawni gyda'n partneriaid e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- ein cyflawniadau wrth gwblhau'r Cynllun Corfforaethol diwethaf
- cyngor a chymorth gan Gomisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg, Plant, Pobl Hŷn, a Chydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- cyngor ac argymhellion i'n rheoleiddwyr a'n harolygwyr

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod drwy nifer o newidiadau mawr a byddwn yn dal i ateb yr her o fod yn sefydliad modern, blaengar. Yn y pedair blynedd diwethaf buom yn allweddol mewn nifer o bartneriaethau gwahanol o Bro Ddiogelach i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r partneriaethau hyn yn cwmpasu nifer o wasanaethau gwahanol, yn cynnwys ystod o bartneriaid ac ardaloedd daearyddol, mae rhai'n benodol i Fro Morgannwg ac eraill yn cwmpasu ardal fwy ar draws De-ddwyrain Cymru. Mae ein hymrwymiad i waith partneriaeth yn adlewyrchu ein dealltwriaeth er mwyn sicrhau gwasanaethau gwell rhaid i ni weithio gydag ystod o sefydliadau.

Roedd ein Siarter Staff yn ymateb i'r angen i wella ymgysylltu â staff a lles staff. Rydym wedi gweithredu rhaglen fawr o drawsnewid gwasanaethau gan gynnwys sefydlu ein cwmni arlwyo ein hunain a datblygu dull cymdogaethol i'n gwasanaethau gwastraff a glanhau strydoedd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn mae diwylliant y sefydliad yn newid wrth i ni addasu i'r heriau sy'n wynebu'r sector cyhoeddus a'r cymunedau a wasanaethwn.

Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol at drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio wrth gynnal safon uchel o ran gwasanaethau. Rydym wedi dod â'n trefniadau cynllunio busnes ynghyd dan Un Bwrdd Goruchwylio sy'n ystyried rheoli asedau, risg, perfformiad, cynllunio ariannol a nifer o faterion corfforaethol eraill mewn ffordd integredig. Mae Cyngor Bro Morgannwg 2020 yn wahanol iawn i Gyngor 2016. Proses raddol oedd hi, yn hytrach na newid radical. Aelodau etholedig sy'n berchen ar newid ac mae staff yn ymateb i adborth gan ein cwsmeriaid, partneriaid a rheoleiddwyr.



Mae'r broses o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol hwn wedi adeiladu ar sut mae'r sefydliad wedi newid a sut mae wedi cofleidio'i ddyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi crisialu llawer o'r newid oedd wrthi'n digwydd yn y Cyngor ond hefyd wedi helpu ei angori a'i ymsefydlu yn y sefydliad. Buom yn ddiolchgar am y canllawiau, cyngor a phecynnau cymorth a roddwyd gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd y Gymraeg, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.


Ein Hamcanion Lles

Mae'r broses uchod wedi arwain atom yn datblygu pedwar amcan lles newydd.

- Gweithio gydag a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae'r amcanion newydd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, gan alinio ag amcanion lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn rhoi fframwaith ar gyfer gwella lles yn y Fro dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r adran hon o'r Cynllun yn nodi'r camau a gymerir i gyflawni ein hamcanion dros y pum mlynedd nesaf. Bydd mwy o fanylion am sut y caiff yr amcanion hyn eu cyflawni mewn Cynllun Cyflawni Blynyddol a gaiff ei gyhoeddi bob Gwanwyn. Caiff y camau gweithredu hyn eu trosi'n weithredoedd a nodir mewn cynlluniau Gwasanaeth a Thîm ar draws y Cyngor.

Rydym wedi symud ar nifer lai o amcanion sydd gyda'i gilydd yn ffurfio pecyn cydlynol o weithgareddau i gyflawni pob un o'n hamcanion lles lleol a sicrhau y gwnawn y cyfraniad mwyaf posibl ar gyflawni'r nodau lles cenedlaethol.



Cyflawni Ein Hamcanion Lles

Rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf, y bydd nifer ohonynt yn cyfrannu at gyflawni mwy nag un o'n hamcanion. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaethom fel sefydliad wrth fabwysiadu dull mwy integredig o sut rydym yn cynllunio ac yn cyflawni ein gwasanaethau. Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am bob un o'n hamcanion lles, pam ein bod wedi'u dewis, beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni a'r gweithgareddau a wnawn i'w cyflawni.



Amcan un: Gweithio gydag a thros ein cymunedau

Er mwyn gwireddu'n llwyddiannus ein gweledigaeth ar gyfer Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair mae angen i ni fod yn wydn, yn arloesol ac yn ymatebol i anghenion ein cwsmeriaid. Ni allwn fod yn sefydliad sy'n aros yn ei unfan. Mae'r hyn a wnawn i gyflawni ein hamcan i **weithio gydag a thros ein cymunedau** yn adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys effeithiol, cyfathrebu ac ymgysylltu i ddeall ac ymateb i anghenion amrywiol y gymuned. Wrth ddatblygu'r amcan hwn byddwn yn cofio anghenion a dyheadau gwahanol bobl o bob oedran ac o bob ardal o'r Fro. Deallwn i fod yn sefydliad effeithiol fod angen i ni fod yn gyflogwr cyfrifol a bod ein staff yn un o'n hasedau mwyaf a bod angen cymorth ar Gynghorwyr i gynrychioli eu cymunedau.



Amcan dau: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

Cydnabyddwn, i nifer, y ffordd orau allan o dlodi neu anawsterau ariannol yw drwy gyflogaeth ac y byddwn yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i hyrwyddo twf economaidd i'r ardal. Mae'r gweithgareddau a wneir i gyflawni ein hamcan i **gefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy** yn cydnabod pwysigrwydd rhoi cyfleoedd dysgu a datblygu priodol i bob o bob oedran. Byddwn yn buddsoddi yn ein hysgolion, yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu gorau.



Amcan tri: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Mae ein hamcan **cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned** yn cydnabod bod angen i bobl deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn y cyngor, gofal a chymorth y gallant eu cael, yn ôl yr angen. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar i wella a chynnal lles ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran iechyd. Byddwn yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth cryf sydd ar gael ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd yn cydnabod rôl hanfodol tai yn lles pobl. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo dewisiadau actif ac iechyd drwy weithgareddau hamdden a diwylliannol ac i annog pobl i ystyried sut mae eu dewisiadau trafndiaeth yn effeithio ar eu hiechyd a'r amgylchedd.



Amcan pedwar: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae'r ffordd rydym yn byw ein bywydau ac yn darparu gwasanaethau'n effeithio ar yr amgylchedd ac mae'n bwysig cydweithio i ***barchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd***. Mae'r amgylchedd yn un o'n hasedau gorau ac mae dyletswydd arnom i'w ddiogelu a'i wella i genedlaethau'r dyfodol. Mae iechyd a lles yn gwbl gysylltiedig â'r amgylchedd. Credwn hefyd ei fod yn bwysig fwynhau'r ardal rydym yn byw ynddi a gwneud y mwyaf o fyw a gweithio mewn ardal mor brydferth â'r Fro. Byddwn yn gweithredu i leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac i ddylanwadu eraill i'n dilyn ac ystyried sut y gallai'r hyn a wnânt effeithio ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Byddwn yn annog trigolion, ymwelwyr a busnesau i leihau gwastraff, allyriadau carbon ac i ystyried sut y maen nhw'n cyfrannu at lygredd. Rydym am i'r Fro fod yn ddeniadol ac yn groesawgar fel y gall pawb fwynhau ein parciau, trefi, cefn gwlad ac arfordiroedd.

Amcan un: Gweithio gydag a thros ein cymunedau

Rydym yn gyngor modern a blaengar sy'n croesawu arloesi ac yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion ein trigolion a chymunedau lleol. Rydym yn ymrwymedig i fodloni anghenion y genhedlaeth hon ac i adael etifeddiaeth gadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol.

Ymhlith y pethau a wnawn mae:

1. Gwella sut y byddwn yn **cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu** ag eraill am ein gwaith a'n penderfyniadau.
2. Gweithio'n arloesol gan ddefnyddio **technoleg, adnoddau a'n hasedau i drawsnewid** ein gwasanaethau fel eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol.
3. Datblygu ein diwylliant cryf o **wasanaeth cwsmeriaid da** wedi'i alinio i werthoedd y Cyngor o fod yn uchelgeisiol, agored, ynghyd a balch.
4. Hyrwyddo **cyfle cyfartal** a gweithio gyda'r gymuned i sicrhau ein bod yn ymatebol i anghenion amrywiol cwsmeriaid.
5. Hyrwyddo'r **Gymraeg** a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwr Cymraeg erbyn 2050.
6. Ategu **datblygiad a lles** ein staff a chydabod eu cyfraniad at waith y Cyngor.
7. Sicrhau bod gennym drefniadau **llywodraethu a chraffu** ar waith a chefnogi ein haelodau etholedig i gyflawni eu rolau.

Amcan dau: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

Rydym yn Gyngor sy'n deall pwysigrwydd poblogaeth addysgedig a medrus gan helpu pobl o bob oedran i ddatblygu a dysgu. Rydym yn ymrwymedig i annog dyheadau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau.

Ymhlith y pethau a wnawn mae:

1. Sicrhau bod mynediad priodol i **ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, meithrin ac addysg** o safon gan alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau gorau pobl waeth beth fo'u hoedran.
2. **Buddsoddi** yn ein hysgolion i roi'r amgylchedd dysgu cywir i'r 21ain ganrif a chyfleusterau sy'n buddio'r gymuned ehangach.
3. Gweithio gydag ysgolion, teuluoedd ac eraill i wella'r gwasanaethau a'r cymorth i bobl ag **anghenion dysgu ychwanegol**.
4. Gweithio gydag addysg, darparwyr hyfforddiant, busnesau ac asiantaethau eraill i roi ystod o **gyngor, cymorth a chyfleoedd hyfforddiant** sy'n gwella sgiliau pobl a'u parodrwydd at waith.
5. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall pobl ddefnyddio **cyngor, gwybodaeth a chymorth dyledion** ariannol sy'n ymwneud â thai, budd-daliadau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
6. Cefnogi a hyrwyddo **gwirfoddoli** a dysgu cymunedol sy'n cydnabod ystod y buddion i unigolion a'r gymuned.
7. Gweithio fel rhan o **Brifddinas-Ranbarth Caerdydd** i ddatblygu cynllunio strategol a mentrau trafndiaeth a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth.
8. Ategu **twf economaidd** drwy adfywio, seilwaith gwella a chymorth i ganol trefi, twristiaeth a diwydiant.

Amcan tri: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Rydym yn Gyngor rhagweithiol sy'n gweithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o les corfforol a meddwl pobl i sicrhau eu bod yn ddiogel gartref ac yn y gymuned ac y gallant wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn Gyngor sy'n sicrhau y caiff pobl y cyngor, gofal a chymorth angenrheidiol yn ôl yr angen.

Ymhlith y pethau a wnawn mae:

1. Annog pobl o bob oedran i gael **ffyrdd o fyw actif ac iach** i hyrwyddo lles corfforol a meddwl gwell.
2. Rhoi mwy o gyfleoedd **beicio a cherdded** a datblygu ystod o opsiynau **teithio** i annog pobl allan o'u ceir.
3. Hyrwyddo **hamdden, celf a gweithgareddau diwylliannol** sy'n bodloni ystod eang o anghenion.
4. Gweithio mewn partneriaeth i roi mwy o wasanaethau **iechyd a gofal cymdeithasol** di-dor.
5. Rhoi gofal a chymorth i **blant a theuluoedd mewn angen** sy'n adlewyrchu eu cryfderau a'u hamgylchiadau unigol.
6. Rhoi gofal a chymorth o gylch y person i **oedolion mewn angen**.
7. Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau **cymorth lles iechyd meddwl ac emosiynol** amserol a phriodol.
8. Cyflawni ei **dyletswyddau diogelu** i ddiogelu pobl rhag niwed.
9. Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu **cymunedau cydlynol** a hyrwyddo **diogelwch cymunedol**.
10. Cadw pobl yn ddiogel drwy **gynllunio argyfwng** cadarn a gwydn a **gwasanaethau rheoliadol** sy'n diogelu'r cyhoedd, defnyddwyr a busnesau.
11. Cynyddu cyflenwad **tai hygrych a fforddiadwy o safon uchel** drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r angen am dai.
12. Rhoi **cyngor a chymorth ar dai** i atal **digartrefedd**.

Amcan pedwar: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Rydym yn Gyngor sy'n pennu safonau uchelgeisiol i'n hunain, ein partneriaid a'n cymunedau. Deallwn sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol, cymunedol a byd-eang ac rydym yn ymrwymedig i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd i sicrhau y gallwn fod yn falch o'r etifeddiaeth a adawn i genedlaethau'r dyfodol.

Ymhlith y pethau a wnawn mae:


1. Gweithio i leihau **allyriadau carbon** y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i'n dilyn fel rhan o'r gwaith o leihau'r effaith negyddol y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.
2. Gweithio gydag a grymuso grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i gynnal **cyfleusterau lleol** gan gynnwys tai bach cyhoeddus, llyfrgelloedd, parciau, ardaloedd chwarae a chanolfannau cymunedol.
3. Diogelu, cadw a lle y bo'n bosibl gwella ein **hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol**.
4. Gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i sicrhau bod yr **amgylchedd lleol** yn lân, deniadol ac yn cael ei reoli'n dda.
5. Gweithio gyda'r gymuned, datblygwyr ac eraill i sicrhau bod **datblygiadau** newydd yn **gynaliadwy** a bod datblygwyr yn lliniaru ar eu heffeithiau, integreiddio â chymunedau lleol ac yn darparu'r seilwaith angenrheidiol.
6. Rhoi gwasanaethau **rheoli gwastraff** effeithiol a gweithio gyda'n trigolion, partneriaid a busnesau i leihau gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd.
7. Lleihau **llygredd** gan gydnabod yr effaith andwyol y gallai ei gael ar yr amgylchedd a lles pobl.
8. Gweithio i leihau effaith **erydu, llifogydd a llygredd** ar ein hardaloedd arfordirol a chysiau dŵr.

Cyflawni ein Hamcanion a Monitro Cynnydd

Datblygwyd y Cynllun hwn yn dilyn ymgysylltu helaeth sydd wedi llywio ein hamcanion newydd. Rydym hefyd wedi ymateb i adborth ac wrthi'n mabwysiadu dull newydd o gynllunio corfforaethol drwy greu Cynllun Cyflawni Blynnyddol bob blwyddyn i ategu'r cynllun pum mlynedd cyffredinol. Caiff y Cynllun Cyflawni Blynnyddol manylach ei gyhoeddi bob Gwanwyn gan fanylu ar y gweithgareddau allweddol a gaiff eu cyflawni i wireddu ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol. Bydd hyn yn llywio'n uniongyrchol Gynlluniau Gwasanaeth unigol sydd hefyd yn cael eu creu bob blwyddyn ac yn manylu ar fesurau perfformiad a thargedau blynnyddol.

Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad cadarn sy'n uchel ei barch. Bydd Arweinydd y Cyngor gyda'r Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor yn parhau i fonitro perfformiad a sicrhau cynnydd yn erbyn y pedwar amcan. Bydd pwyllgorau Craffu'r Cyngor yn craffu ar berfformiad yn rheolaidd i sicrhau bod y Cyngor yn gwireddu ei weledigaeth a'r canlyniadau angenrheidiol i wella lles lleol.

Dylai'r Cynllun Corfforaethol felly gael ei ystyried ynghyd â'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol a hefyd Cynlluniau Gwasanaeth unigol sy'n rhoi mwy o fanylion am gamau gweithredu penodol a sut y caiff perfformiad ei fonitro.



Atodiad 1 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae “Datblygu Cynaliadwy” yn golygu’r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â’r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, a anelir at gyflawni’r nodau lles.”

Mae’r Cyngor wedi cofleidio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae wedi nodi ynghynt yn y Cynllun y gwnaed newid sylweddol i’r ffordd y mae’r Cyngor yn gweithio. Byddwn hefyd yn nodi rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau i’r pum mlynedd nesaf a ddisgrifir yn fanylach yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ategol.

Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Mae’r Ddeddf eisoes wedi cael effaith fawr ar Gymru, ac mae wedi gwneud i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a restrir yn y Ddeddf feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio’n well gyda phobl a chymunedau a’i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu’n fwy cydlynol. Er mwyn sicrhau bod cyrff perthnasol yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae’r Ddeddf yn gosod saith nod lles ac egwyddor datblygu cynaliadwy.


Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae’r Ddeddf yn gosod ‘egwyddor datblygu cynaliadwy’ ar waith sy’n dweud wrth sefydliadau sut i fodloni eu dyletswydd dan y Ddeddf;

Rhaid i chi weithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain gan ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy’

Nodau Lles Cenedlaethol

Noda'r tabl isod y saith nod lles cenedlaethol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni'n effeithiol i;

AMCAN	DISGRIFIAD o'r AMCAN
 <p>Cymru Lewyrchus</p>	<p>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.</p>
<p>Cymru Gadarn</p>	<p>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).</p>
<p>Cymru Iachach</p>	<p>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.</p>
<p>Cymru fwy Cydradd</p>	<p>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).</p>
<p>Cymru o Gymunedau Cydlynol</p>	<p>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.</p>
<p>Cymru o Ddiwylliant Bywiog a'r iaith Gymraeg yn ei Phrifant</p>	<p>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.</p>
<p>Cymru Gyfrifol</p>	<p>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai hyn gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.</p>

Pum Ffordd o Weithio

Drwy ymsefydlu'r pum ffordd o weithio mae'r Cyngor yn gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf



Edrych i'r Hirdymor - Yr effaith a fwriedir o'r gofyniad hirdymor yw eich bod yn gwybod am, ac yn mynd i'r afael â lles cenedlaethau heddiw ac yfory wrth fodloni anghenion y bobl rydych yn eu gwasanaethu'n awr.

Mabwysiadu dull integredig - Diben hyn yw sicrhau eich bod yn cydnabod y rhyng-ddibyniaeth sydd rhwng y saith nod lles ar eich amcanion lles. Dim ond dull sy'n gwneud y cysylltiadau rhwng, ac yn integreiddio'n effeithiol heriau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl o du pob corff cyhoeddus i gyflawni'r nodau lles. Gall hyn hefyd nodi cyfleoedd i symleiddio trefniadau.

Cynnwys Pobl - Mae cynnwys pobl a chymunedau'n effeithiol wrth wraidd gwella lles heddiw ac yfory. Mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Cydweithio ag eraill - Diben cydweithredu yw cydnabod y rolau gwahanol sydd gan gyrff cyhoeddus wrth ateb heriau hirdymor, a sicrhau bod y camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus yn ategol, gan felly sicrhau eu heffaith fwyaf posibl gyda'i gilydd.

Atal - Gall deall achosion sylfaenol problemau pobl a chymunedau ein helpu i ddod o hyd i atebion gwahanol, ymyrryd yn gynnar ac atal problemau rhag gwaethygu neu godi yn y dyfodol. Ond mae mwy i hyn na datrys problemau - rhaid dod o hyd i atebion sy'n galluogi, a sicrhau ymyriadau cynnar ar yr adeg gywir i symud at gyflawni'r nodau lles.

Atodiad 2 - Geirfa

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol yn cyfeirio at blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu, corfforol neu synhwyrdd sy'n ei gwneud yn anos iddynt ddysgu na'r rhan fwyaf o blant eraill o'r un oedran <https://www.dewis.wales/additional-learning-needs-cyp>
- **Cynllun Cyflawni Blynyddol** - Caiff y cynllun ei gyhoeddi bob Gwanwyn a bydd yn manylu'r camau gweithredu a wneir dros gyfnod o ddeuddeg mis i gyflawni amcanion ac ymrwymadau lles y Cynllun Corfforaethol.
- **Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol** - Cynlluniau Gwasanaeth yw'r dogfennau cynllunio allweddol i'r Cyngor sy'n fodd i bob gwasanaeth hunanasesu. Mae'r cynlluniau'n nodi'r amcanion a'r nodau allweddol sy'n berthnasol i bob gwasanaeth https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/achieving_our_vision/Service-Plans.aspx
- **Cabinet** - Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a chwe chynghorydd arall ac mae'n defnyddio ei Bwerau Gweithredol i wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau'r Cyngor ar wasanaethau, swyddogaethau a rheoli corfforaethol, gan gynnwys cynlluniau a strategaethau Mae rhai materion allweddol, fel pennu'r gyllideb, yn faterion i'r Cyngor benderfynu arnynt https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/Council-Structure/Cabinet/Cabinet.aspx
- **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** - Mae Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen y cytunwyd arni yn 2016 rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deng awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru i symbylu twf economaidd sylweddol yn ranbarth y Brifddinas-Ranbarth trwy fuddsoddi, uwchsgilio a gwella cysylltedd corfforol a digidol. <https://www.cardiffcapitalregion.wales>
- **Cydweithredu** - Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae hyn yn golygu gweithio gydag unrhyw berson, sefydliad neu rannau eraill o'r Cyngor ar y cyd i gyflawni ein hamcanion lles.
- **Integreiddio** - Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae hyn yn golygu sut i ystyried sut y gallai ein hamcanion lles effeithio ar bob un o'r nodau lles cenedlaethol, ar ein hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** - Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Ein Bro - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (PSB) yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r

sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Bro Morgannwg i weithio mewn partneriaeth er mwyn dyfodol gwell. <https://www.valepsb.wales/en/Home.aspx>

- **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** - Sefydlwyd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) - fel rhan o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y diben yw rheoli a datblygu gwasanaethu i sicrhau cydweithredu gwell rhwng byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ac i sicrhau gwasanaethau effeithiol, gofal a chymorth sy'n bodloni orau anghenion ein poblogaeth. <http://www.cvihsc.co.uk/>
- **Craffu** - Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor ac mae'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu'n effeithiol, yn effeithlon ac er budd trigolion Bro Morgannwg a'r bobl sy'n ymweld â hi. Mae Pwyllgorau Craffu'n cynnwys Cyngorwyr nad ydynt ar y Cabinet. Mae'r Pwyllgorau hyn wedi gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wna'r Cabinet ac i sicrhau bod barn ac anghenion y gymuned yn cael eu hystyried https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/Council-Structure/scrutiny/scrutiny.aspx
- **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** - Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ddynodiad cadwraeth ffurfiol, sydd fel arfer yn disgrifio ardal sydd o ddiddordeb penodol i wyddoniaeth oherwydd y rhywogaethau neu blanhigion prin sydd yno. Maen nhw'n aml yn cynnwys cynefinoedd pwysig fel glaswelltir, parcdir a choetir. Mae rhai hyn yn oed yn cynnwys coetir hynafol a choed hynafol. Maen nhw'n ardaloedd sydd â gwerth cadwraeth uchel ac mae angen eu diogelu.

Am ragor o wybodaeth...

Ewch i'n gwefan

Mae nifer o dasgau y gallwch bellach eu gwneud ar-lein gan gynnwys taliadau ar-lein, rhoi gwybod am dwll yn y ffordd neu gasgliad a fethwyd neu drefnu cabanau traeth neu gasgliadau gwastraff swmpus. Ewch i'n gwefan:

www.bromorgannwg.gov.uk

Newyddion a Diweddariadau - yn syth i'ch mewnlwch

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

Cyfringau Cymdeithasol

Cael y newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

Os oes gennych ymholiad am unrhyw un o wasanaethau'r cyngor, cysylltwch â ni.

E-bostiwch c1v@valeofglamorgan.gov.uk neu ffoniwch 01446 700111